# Digwyddiadau Arbennig –

# Noson Y Fari Lwyd Dinas Mawddwy

Nos Sadwrn Hen Galan Ionawr bob blwyddyn

Noson a grëwyd gan Arfon Hughes tiwtor Cymraeg i oedolion i ddysgwyr a Chymry Cymraeg gymysgu yn anffurfiol tu allan i'r dosbarth heb deimlo yn anghyfforddus i siarad yr iaith.

Noson sydd wedi datblygu yn un o nosweithiau pwysig y flwyddyn i ddathlu'r Gymraeg a Chymreictod yn ardal Dinas Mawddwy a thu hwnt.

Noson gymdeithasol a chanu gwerin a dawnsio gwerin lle mae perfformwyr gwadd yn cytuno i berfformio am ddim neu y nesa peth gan nad oes neb yn cael eu talu.

Perfformwyr yn cynnwys - Parti Plygain Mawddwy, Dewi Pws, Gwilym Bowen Rhys, Linda Griffiths, Parti Cut Lloi, Meibion Llywarch, Parti Meibion Dyfi, Côr Gore Glas, Ffermwyr Ifanc Dinas Mawddwy, Edryd Williams, Gwenan Gibbard, Mair Tomos Ifans.

Dawnswyr Llangadfan ac Aberystwyth yn perfformio ac yn galw gyda dawnsio ar y stryd yn hwyr y nos.

Profiad bythgofiadwy!

